

Saron a Pheniel

Sul yma – 18^{fed} ➤ Cynhelir Gwasanaeth Nadolig y plant a'r ieuencid yn Saron am 11.00. Bydd y Parti Nadolig yn dilyn y gwasanaeth a disgwylir y bydd Siôn Corn yn ymweld. Cynhelir Gwasanaeth Nadolig ym Mheniel am 11.00 a bydd paned a sgwrs i ddilyn yn y Festri.

2017
lau – Ionawr 5^{ed} ➤ Oedfa dechrau'r flwyddyn yn Saron am 7.00 gyda Mr Glyn Williams, Llandudno yn pregethu. Croeso cynnes i bawb. Bydd paned i ddilyn.
Sul – Ionawr 8^{fed} ➤ Bydd y Parch. John Lewis Jones yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00 ond ni fydd Ysgol Sul yn Saron.

Henllan a Groes

Sul yma – 18^{fed} ➤ Bydd Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 a chynhelir Gwasanaeth Nadolig yno am 2.00 gyda'r casgliad tuag at Shelter Cymru. Bydd Gwasanaeth Nadolig yn Groes am 10.30, a bydd Parti Nadolig i ddilyn yn y Festri.

2017
Sul – Ionawr 8^{fed} ➤ Bydd Mr Alun Jones yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.

Cofion a Chyfarchion

- Gyda thristwch y daeth y newydd am farwolaeth Mr Trefor Wynne (Henllan) ddechrau'r wythnos. Roedd Trefor yn ŵr bonheddig, a'i wên dawel a'i groeso bob amser yn ei gwneud yn bleser bod yn ei gwmni. Diolchwn amdano ac estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â'i briod, Gwyneth, ac â'r plant – Rhodri, Heledd a Gwydion, a gweddill ei deulu. Gweddïwn y bydd Duw yn gwarchod drostynt mewn ffordd arbennig ac y byddant, ynghanol eu tristwch, yn profi cariad Duw yn gysur ac yn gymorth iddynt.
- Cofiwn hefyd am eraill sy'n hiraethu am anwyliaid y Nadolig hwn. Gweddïwn y bydd pob un ohonynt yn profi gofal a chariad Duw yn eu hamgylchynu.
- Anfonwn ein cofion heddiw at Kitty Parry (Llanefydd) a Menna Owen (Cefn Meiriadog) – y ddwy ohonynt yn cael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd. Da deall bod Bessie Owens (Cefn Berain) wedi cael dod adref o'r ysbyty erbyn hyn. Cyflwynwn y tair, a phawb arall sydd heb fod cystal eu hiechyd y dyddiau hyn i ofal yr Arglwydd gan weddio y bydd pob un ohonynt yn cael gwellhâd buan ac y bydd Duw yn ei holl ddaioni yn rhoi nerth a chysur iddynt yn eu hangen.
- Llongyfarchiadau calonnog i Rhian ac Anthony Desmond (Llanfair) ar enedigaeth mab, brawd bach i Lucas.

Y Rhifyn Nesaf

Bydd y rhifyn nesaf o Llais Bro Aled yn cael ei gyhoeddi ar **Ionawr 8fed**.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 18^{fed} Rhagfyr 2016

Darlleniad y Dydd

loan 1:14-18

(BCND tud.99 / BCN tud.91)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Nadolig Llawen a chroeso cynnes i wasanaethau Nadolig ein heglwysi ar draws y Fro heddiw. Wrth i ni ddathlu dyfodiad y Gwaredwr i'n plith a mwynhau cwmni'n gilydd, gweddïwn y byddwn uwchlaw popeth yn profi presenoldeb Crist yn bersonol, wrth i ni gredu ynddo a thyfu yn ein hadnabyddiaeth o'r un 'orweddodd yn y beddrod, er ein mwyn'. Gan mai hwn yw Llais Bro Aled olaf 2016 hoffwn ddal ar y cyfle i ddymuno bendith yr Arglwydd ar holl ddarllenwyr Llais Bro Aled ymhell ac agos dros gyfnod Gŵyl y Geni ac ar gychwyn blwyddyn newydd. Sylweddolwn fod nifer ohonom wedi profi amser digon caled dros y flwyddyn aeth heibio am amrywiol resymau, ac wrth gofio am deuluoedd mewn profedigaeth neu sy'n parhau i ddelio ag effeithiau afiechyd, rydym am ddiolch i'r Arglwydd am ei ffyddlondeb trwy'r cyfan – 'fy nghraig gadarn, fy noddfa yw Duw.' (Salm 62:7) Ac wrth nesáu at ddechrau blwyddyn arall beth am i ni baratoi i neilltuo cyfnod cyson o amser i'w dreulio gyda Duw mewn gweddi ac yn darllen a myfyrio ar ei Air? Gellir cael nifer o gynlluniau darllen dyddiol i'n tywys trwy'r Beibl, a bu Crist ei hun yn annog ei ddisgyblion i weddio'n daer ac yn ddiflino (Luc 18:1-8). Pam fod hyn yn syniad da? Oherwydd bod trysor diderfyn gan y Meseia ar gyfer ei bobl (Effesiaid 3:8) ac mae profi'r trysor hwn yn dod wrth i ni ddyfnhau ein hadnabyddiaeth o Grist o ddydd i ddydd.

Bydd llawer un yn teithio'n bell i ddychwelyd adref i dreulio'r Nadolig gyda'r teulu, ond wrth i ni ystyried ein darlleniad ar y cyd o loan 1 heddiw, rhyfeddod pennaf y Nadolig yw bod Crist wedi dod o'i ogoniant i breswyllo yn ein plith – y Creawdwr wedi dod i mewn i'w greadigaeth gan wisgo natur dyn. A phwrpas hyn oll oedd cyflawni bwriad achubol Duw – dywed Hebraeid 2:14-15 fod Iesu 'wedi cyfranogi o'r cig a gwaed hwnnw, er mwyn iddo, trwy farwolaeth, ddiddymu'r hwn sydd â grym dros farwolaeth, sef y diafol, a rhyddhau'r rheini oll oedd, trwy ofn marwolaeth, wedi eu dal mewn caethiwed ar hyd eu hoes.' Felly, beth bynnag fydd ein hamgylchiadau dros yr wythnosau nesaf, gallwn ddiolch am y gobaith tragwyddol sydd wedi dod i'n byd trwy fab Mair. Ac ymhellach, gallwn droi at yr Arglwydd trugarog gan ofyn iddo am i'r gobaith hwnnw ddod yn fyw i ni trwy ffydd. Hyd yn oed yn ei wendid pennaf, rhaid i'r Cristion atgoffa'i hun mai 'o'i gyflawnder ef yr ydym ni oll wedi derbyn gras ar ben gras.' (loan 1:16)

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled

Rhodri

Manylion Cyswllt

Rhodri – rhodri@eglwysibroaled.com 01745 870522 07814 660291

Gwion – gwion@eglwysibroaled.com 01745 582644 07849 591163

Mair – mair@eglwysibroaled.com 01745 870632 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, Ionawr 4^{ydd} os gwelwch yn dda.

Cyhoeddiadau

Y Fro

SYLWER

- **Cyflwyniad i Gristnogaeth** (ar gyfer yr ieuencid sydd wedi dangos diddordeb i gael eu derbyn yn aelodau). Byddwn yn cysylltu trwy Facebook i drefnu noson gyfleus i gyfarfod yr wythnos hon.
- Sul yma – 18^{fed} ➤ Ni fydd **Oedfa i'r Fro** heno.
- Mawrth – 20^{fed} ➤ **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yng Nghefn Meiriadog am 7.30.
- Sul nesaf – 25^{ain} ➤ **Oedfa Bore Nadolig i'r Fro** yng Nghapel Soar, Llanfair Talhaiarn **am 9.30.**
- Mercher – 28^{ain} ➤ **Swper Nadolig y Cyfarfodydd Ganol Wythnos / Oedfa'r Fro** yn Festri Llansannan am 7.30. Cysylltwch â Mair **erbyn dydd Llun, Rhagfyr 19eg** i roi eich enwau ac i drefnu'r bwyd, os gwelwch yn dda.
- Iau – 29^{ain} ➤ **Taith Gerdded Hamddenol i'r Fro** o amgylch Llyn Idwal. Mae'r llwybr yn wastad ond yn eithaf amrwd, felly bydd angen esgidiau cerdded neu wellingtons ar bawb sy'n bwriadu dod. Ein bwriad yw galw am 10.30 i weld Capel Nant y Benglog yng Nghapel Curig, sef y capel bychan lle roedd Rhodri yn aelod cyn iddo ddod i Llansannan, ac yna cyfarfod ym maes parcio Cwm Idwal am 11.00 i gychwyn y daith gerdded fydd yn para oddeutu awr, ac yna (gan nad oes lle addas i gael picnic ger y llyn), mynd i gael cinio (neu fyrbryd) yng ngwesty'r Waterloo ym Metws y Coed erbyn tua 12.45–1.00. (Nid yw'r daith gerdded yn addas ar gyfer unrhyw un sy'n ansad ar ei draed, nac ar gyfer unrhyw beth ar olwynion, ond croeso i bawb ddod i weld y capel ac i dreulio amser ym Metws y Coed nes medrwn ail-yngynnwll amser cinio os byddwch yn dymuno hynny.) *PWYSIG* Rhowch eich enw i Mair **erbyn Rhagfyr 19eg** os ydych am ymuno â ni fel y gallwn archebu cinio ymlaen llaw, a gwneud trefniadau parcio os am fynd i weld y capel. Os bydd y tywydd yn anffafriol, medrwcwch gysylltu â Mair neu edrych ar dudalen flaen y wefan i weld a fydd y daith ymlaen ai peidio.

2017

- Sul – Ionawr 1^{af} ➤ **Oedfa i'r Fro** yng Nghapel Llanefydd **am 10.30.**
- Sul – Ionawr 8^{fed} ➤ **Oedfa i'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn Williams, a bydd Rhodri yn pregethu.

“Ganwyd i chwi heddiw yn nhref Dafydd, Waredwr,
yr hwn yw'r Meseia, yr Arglwydd.” (Luc 2: 1 1)

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 18^{fed} ➤ Cynhelir Gwasanaeth Nadolig yng Nghefn Meiriadog am 10.30 a bydd paned a mins pei i ddilyn. Cynhelir Gwasanaeth Nadolig i'r teulu yn Llanfair am 11.00 a bydd Parti Nadolig i bawb yn y Neuadd Goffa i ddilyn.
- 2017
Sul – Ionawr 8^{fed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 18^{fed} ➤ Bydd Gwasanaeth Nadolig Ysgol Sul yr oedolion am 10.00. Cynhelir Gwasanaeth Nadolig y plant yn y capel am 2.00 a bydd y Parti Nadolig yn dilyn yn y **Ganolfan**. Plis cysylltwch â Trebor Roberts (870221) os gallwch gyfrannu at y bwyd. Croeso i bawb!
- Llun – 19^{eg} ➤ **'Awn i Fethlehem'** – Gwasanaeth Carolau Cymdeithas Llansannan yn Eglwys Sant Sannan am 7.30.
- Sul nesaf – 25^{ain} ➤ **Plygain** yng Nghapel Bethania, Llansannan am 7.00 bore Nadolig.
- 2017
Mercher – 4^{ydd} ➤ Cynhelir Cyfarfod Cymdeithas y Beibl yn Festri Llansannan am 7.30 yng nghwmni Christine Daniel, Pennaeth Cymdeithas y Beibl yng Nghymru. Croeso i bawb.
- Sul – Ionawr 8^{fed} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion am 11.10.
- Bydd Gwion yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 18^{fed} ➤ Bydd Gwasanaeth Nadolig yng Nghefn Berain am 10.30 gyda'r Parti Nadolig yn dilyn. Yn yr un modd, bydd Gwasanaeth Nadolig yr Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.30 yng nghwmni Rhodri, gyda'r casgliad yn cael ei gyfrannu fel nawdd i'r daith gerdded o Fethlehem i'r Aifft tuag at waith Cymorth Cristnogol. Bydd Parti Nadolig i ddilyn yn y Neuadd. Yna, bydd Gwasanaeth Carolau Undebol Llanefydd yn yr Eglwys am 6.30.
- Llun – 19^{eg} ➤ **Clwb Cinio a dathliad 'Dolig** gyda gwahoddiad arbennig i'r holl aelodau yng Nghapel Cefn Berain. Dewch atom i fwynhau pryd Nadoligaidd!
- Sadwrn – 24^{ain} ➤ **Plygain** yng Nghapel Llanefydd Noswyl Nadolig am 7.00 yr hwyr.
- 2017
Sul – Ionawr 8^{fed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.